# Plannu coeden ffrwythau mewn pot

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **O leiaf 1 awr** |
| **Lleoliad** | **Awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar blannu coed ffrwythau mewn potiau i gefnogi bioamrywiaeth.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei holl waith yw mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mathemateg a Rhifedd |
|---|---|
| • **Beth sy'n bwysig** – Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | • **Beth sy'n bwysig** – Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol. |
| • **Beth sy'n bwysig** – Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | |

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd dysgwyr yn gallu:**

- Egluro pam ei bod hi'n bwysig plannu coed
- Plannu coed mewn potiau yn llwyddiannus
- Diogelu a chynnal a chadw coed wedi'u plannu

## Offer ac adnoddau

- Bwced mawr – un ar gyfer pob coeden, yn ddelfrydol
- Bag bin ar gyfer bob coeden – dewisol os nad oes gennych chi ddigon o fwcedi
- Trywel i bob grŵp
- Blwch plastig y gellir ei selio
- Argymhellir defnyddio pot o leiaf 60cm o ddyfnder a diamedr 60cm i bob coeden
- Pridd neu gompost di-fawn
- Can dŵr
- Tomwellt - dewisol

## Gwybodaeth gefndir

Os nad oes gennych chi ddigon o le addas yn yr awyr agored i blannu perllan, bydd coed ffrwythau'n tyfu'n iawn mewn potiau mawr. Bydd angen i chi socian gwreiddiau pob coeden am 30 munud ac yna paratoi'r potyn a phlannu'r goeden a fydd yn cymryd o leiaf 30 munud ychwanegol. Cynghorir i chi i socian y coed i gyd ymlaen llaw a phlannu'r holl goed ar yr un pryd, mewn grwpiau, i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf a gofalu bod dysgwyr yn ymgysylltu â'r gweithgaredd.

Yn dibynnu ar ble rydych chi wedi dod o hyd i'r goeden ffrwythau, efallai ei bod wedi'i himpio. Mae coeden ffrwythau fel hyn yn cynnwys dwy ran o wahanol goed wedi'u huno er mwyn sicrhau y gellir tyfu'r amrywiaeth o ffrwythau a ddymunir. Gwreiddgyffion sy'n ffurfio sylfaen coed wedi'u himpio, maen nhw'n darparu'r gwraidd, tra bod brigyn impiedig yn cynnwys y rhan o'r goeden sy'n ffrwytho. Gweler ein **Nodyn gwybodaeth – Gwreiddgyffion ac impio** am fwy o wybodaeth.

Cyn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn, argymhellir eich bod chi'n cynllunio ble bydd eich coed yn cael eu gosod. Gweler ein **Nodyn gwybodaeth – Dylunio perllan**.


## Beth i'w wneud

1. Cyn plannu'r goeden, sociwch y gwreiddiau mewn bwced o ddŵr am tua 30 munud. Sicrhewch eu bod yn wlyb iawn ac nad ydyn nhw'n sychu wrth i chi baratoi'r twll. Os nad oes gennych chi ddigon o fwcedi ar gyfer un i bob coeden, gallwch chi eu cadw'n llaith drwy eu lapio nhw mewn bag bin wrth i chi baratoi'r ardal.

2. Llenwch eich potyn dri chwarter llawn gyda phridd neu gompost di-fawn.

3. Gwnewch dwll yn y pridd sydd yn eich potyn, tua'r un maint â'r gwraidd. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n torri'r deunydd ar waelod y twll er mwyn helpu'r gwreiddiau i dreiddio i'r pridd. Dylai'r twll fod yn ddigon dwfn i orchuddio'r gwreiddiau ond mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod yr uniad impio (os yw'r goeden wedi'i himpio) uwchben wyneb y pridd. Yr uniad impio, a elwir hefyd yn goler impio yw lle mae'r brigyn sydd wedi'i impio a'r gwreiddgyff wedi'u huno.


4. Tynnwch eich coeden allan o'r bwced, neu'r bag bin, gan wahanu'r gwreiddiau, er mwyn iddyn nhw allu estyn allan i bob cyfeiriad.



5. Gofynnwch i rywun ddal y goeden yn y potyn, gan sicrhau bod y gwreiddiau'n cael eu gwahanu. Gallwch chi nawr lenwi'r twll gyda phridd, gofynnwch i'r person sy'n dal y goeden i symud y goeden i fyny ac i lawr ychydig o gentimedrau er mwyn sicrhau nad oes pocedi aer o amgylch y gwreiddiau. Dydy gwreiddiau ddim yn gallu tyfu drwy bocedi mawr o aer ac mae pocedi aer hefyd yn atal dŵr rhag teithio drwy'r pridd.

6. Gan ddefnyddio'ch dwylo, gwthiwch y pridd i lawr o amgylch y gwreiddiau. Peidiwch â phwyso'n rhy galed, rydych chi am i'r pridd fod yn gadarn ond heb ei gywasgu.

7. Yn olaf, rhowch ddigon o ddŵr i'ch coeden, mae'n hanfodol dyfrio'ch coeden ffrwythau'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r pridd yn sychu. Gall ychwanegu haen o domwellt nawr helpu i gadw'r lleithder yn y pridd, yn ogystal â rhoi maetholion ac atal chwyn.




## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Pam mae coed ffrwythau'n bwysig?
- Sut gallwn ni ddiogelu'r coed rhag plâu, clefydau a'r tywydd?
- Beth yw swyddogaethau gwahanol rannau o'r goeden?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gefnogaeth

- Rhowch fwy o gymorth i ddysgwyr, yn enwedig wrth lenwi pridd o amgylch y gwreiddiau.

### Llai o gefnogaeth

- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i sut mae mathau eraill o hadau ffrwythau yn cael eu tyfu.
- Darparwch becynnau profi pH i ddysgwyr brofi'r pridd.

## Gweithgaredd dilynol/ymestyn

- Ewch i ymweld â pherllan leol neu ardd gyhoeddus i archwilio coed ffrwythau eraill a thechnegau gofalu.
- Ymgorfforwch gynllun rheoli perllan yn eich cynllun Gweithredu Eco-Ysgol, gweler ein hadnoddau rheoli perllan am fwy o wybodaeth.
- Dylunio a chynhyrchu arwyddion er mwyn labelu eich coed.
- Monitro a chofnodi'r gwlybaniaeth (gyda gorsaf dywydd ddigidol o bosibl) er mwyn llunio amserlen ddyfrio.

## Adnoddau eraill

Rhowch gynnig ar ein hadnoddau eraill ar goed, coetiroedd a pherllannau:

- **Cynllun gweithgaredd – Sut mae coeden yn gweithio**
- **Cynllun gweithgaredd – Pam mae perllannau'n bwysig**
- **Nodyn gwybodaeth – Mathau o docio**

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government